

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen Waith y Cyngor nos Iau, Chwefror 1af yn brydlon am 7 o'r gloch yn

# **Festri Capel Pencaenewydd**

Bydd y panel Rheolau Sefydlog a Pholisiau yn cyfarfod am 6 o'r gloch heb y Clerc.

1. Croesawu'r Cynghorydd Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy fel Cynghorydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd.
2. Ymddiheuriadau.
3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes ac yna'r Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 4ydd, 2018.
4. Arwyddo cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.
  1. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy.
  2. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.
  3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cromlech Beudy Gromlech, Rhoslan – Llwybr rhif 71A.
  4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhesdai Penygroes, Llanystumdwy, achlysur llifogydd eithriadol 22/11/2017.
  5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned.
  6. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor.
  7. Gwasanaeth Cefnogol, Adnoddau Dynol; Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn.
  8. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyflymder traffig ym mhentref Chwilog.
  9. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned.
  10. Gwynedd Ddigidol; gair gan y Cynghorydd Anwen Jones.
8. Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:

  1. Cais C18/0022/41/LL – Codi orendy unllawr to gwastad ar ochr yr eiddo; Rynys, Llanarmon.
  2. Cais C17/1259/41/LL – Trosi adeiladau allanol i 2 uned gwyliau a gosod system trin carffosiaeth; Y Glyn, Llanystumdwy.
  3. Cais C18/0032/41/LL – Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Bryn Gwynt, Afonwen.
9. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd –Cynigion Drafft.
10. Un Llais Cymru;
  - a. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Lleol.
  - b. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
11. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru; neges ar ran panel yr adolygiad annibynnol.
12. Cyngor Tref Cricieth; ymateb i'r llythyr ynghylch llinellau melyn dwbl ger y Ganolfan Iechyd, Cricieth.
13. Gohebiaeth oddi wrth Glwb Peldroed Llanystumdwy ynghylch nawdd gan y Fferm Solar gyferbyn â Hafan y Môr.

14. Gohebiaeth oddi wrth bwyllgor Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog yn gofyn i'r Cyngor yma roi bin baw ci ar bostyn arwydd y fynwent.

**15. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy –

- a. cyflwr y llwybr troed/beiciau rhwng Llanystumdwy a Chricieth.
- b. y safle bws am Gricieth ger Gwyndy, Llanystumdwy.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

16. Cais gan drethdalwr i'r Cyngor yma ofyn i Scottish Power anfon rhywun i gymeryd darlleniad bob chwarter os ydi'r cwsmer mewn oed neu heb gyfrifiadur ac yn cael traferth i anfon darlleniad.

17. Dogfen Ymgynghorol Cyngor Sir Gwynedd ar Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid Sirol. Caed tystiolaeth bod ystadegau'r Ddogfen yr ymatebwyd iddi yn dilyn Cyfarfod Rhagfyr 7fed, 2017 yn gamarweiniol ac yn cryfhau ymhellach ein dadl yn erbyn diddymu nawdd ariannol i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn y Sir. Gair gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones.

**Materion Ariannol**

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

19. Gohebiaeth ynghylch cysylltiad band eang i Ffestri Capel Pencaenewydd.

20. Derbyn taliad o £537.80c oddi wrth Gyngor Gwynedd, ad daliad arian llwybrau.

21. Yn aros am bris gan Mr D E Williams, Liithfaen am y gwaith symud y safle bws ger Stâd Maes Llwyd i gyferbyn â'r lloches bws ger stâd Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy.

22. Anfonebau angen eu talu:

1. Hysbyseb dau fis yn Y Ffynnon am yr arian sydd i gael ei rannu -£24-, taliad BACS.

2. Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwiliwr, tâl am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2016/17, ynghyd â pharatoadau mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Flynyddol i'r Archwiliwr Allanol - £75-, taliad siec. Hefyd mae Mr Roberts wedi anfon llythyr i ddweud ei fod yn rhoi gorau i wneud y gwaith ac yn diolch i'r Cyngor yma am eu cydweithrediad dros y blynyddoedd.

3. Mr Gareth Jones, Caeathro, am ei waith yn cadw safle bedd Lloyd George yn daclus yn ystod tymor 2017 - £250-, taliad BACS.

23. Ceisiadau am gymorth ariannol

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
2. Mynwent Capel Helyg, Llangybi
3. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog
4. Mynwent Newydd Llanystumdwy
5. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.
6. Clwb Peldroed Llanystumdwy
7. Neuadd Goffa Chwilog.
8. Neuadd Llanystumdwy.
9. Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd
10. Clwb Hoci Pwllheli
11. Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018
12. Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018
13. Gŵyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018
14. Dawns i Bawb.
15. Theatr Bara Caws.

Mae rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.  
Hefyd wedi derbyn ceisiadau gan y canlynol ond heb fantolen er gofyn am un:

1. Clwb Nofio Porthmadog-Blaenau Ffestiniog-Pwllheli
2. Grŵp Mynediad Dwyfor
3. Marie Curie Nursing

It is possible to get an English translation, contact the Clerk.